



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TYLLU PERSONOL INTIMATE PIERCING

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Gwybodaeth i fusnesau ac ymarferwyr tyllu'r corff

Gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru

O 1 Chwefror 2018 ymlaen, mae'n drosedd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. Mae hefyd yn drosedd i 'wneud trefniadau' i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. At ddibenion y gwaharddiad, 'plentyn' yw unrhyw berson o dan 18 oed.

Ystyr 'gwneud trefniadau' yw pan fydd rhywun wedi nodi ei fod yn barod i roi twll yng nghorff person penodol o dan 18 oed yng Nghymru. Does dim gwahaniaeth a fydd taliad yn cael ei wneud ai peidio. Gallai'r trefniant gynnwys trefnu apwyntiad ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff heb wirio oedran y cleient yn gyntaf.

Mae person a gaiff ei ddyfarnu'n euog o'r naill drosedd neu'r llall yn agored i gael dirwy ddigyfyngiad.

Nod y gwaharddiad yw atgyfnerthu arfer da presennol yn y diwydiant tyllu'r corff. Mae llawer o ymarferwyr yn dewis peidio â rhoi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc, ond roedd yn bosibl i berson o dan 18 oed dderbyn y triniaethau hyn gan nad yw'r gyfraith yn eu gwahardd yn bendant. Nid yw hyn yn wir mwyach.

Mae'r ddeddf newydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru, nid busnesau tyllu'r corff yn unig. Nod y daflen wybodaeth hon yw helpu busnesau tyllu'r corff i gydymffurfio â'r gyfraith newydd pan ddaw i rym ar **1 Chwefror 2018**.

Os oes gennych unrhyw amheuan am eich rhwymedigaethau cyfreithiol, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun neu gysylltu â'ch awdurdod lleol. O dan y Ddeddf, bydd yn ofynnol i chi sicrhau:

- nad ydych yn rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 18 oed ac,
- nad ydych yn gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 18 oed yng Nghymru.

Mae gofynion y ddeddf newydd yn ychwanegol at eich cyfrifoldebau presennol o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, neu unrhyw ofynion o dan gofrestrriad lleol.

Mae'r weithred yn golygu rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, heblaw pan wneir hynny fel rhan o driniaeth feddygol. Ystyr "tyllu'r corff" yw gwneud trydylliad (gan gynnwys pric neu endoriad) yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda'r bwriad o alluogi i emwaith neu wrthrych arall gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae tynnu gwrthrych o gorff yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fo'n rhaid trydyllu'r croen er mwyn tynnu gemwaith neu wrthrychau o'r corff. Mae gwrthrychau wedi cael eu rhagnodi mewn rheoliadau a gallant gynnwys, er enghraifft, glain. Gellir gweld y rheoliadau yma: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/1120/contents/made/welsh>

Mae'r rhannau personol o'r corff yn cynnwys:

- yr anws
- y fron (gan gynnwys y deth a'r areola)
- y ffolen
- rhych y pen ôl
- y pidyn (gan gynnwys y blaengroen)
- y perinëwm
- y mons pubis
- y ceillgwd
- y tafod
- y fwlfa.

Mae'r rhestr yn nodi rhannau personol o gyrff personau o bob rhywedd. Mae pilenni mwcaidd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad gan y gallai arwyneb rhannau personol o'r corff fel y fwlfa gynnwys croen neu bilenni mwcaidd.

Diben y gyfraith newydd yw amddiffyn plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag niwed posibl i'w hiechyd, a allai gael eu achosi wrth roi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Y diben hefyd yw osgoi amgylchiadau lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi mewn sefyllfa a allai eu gadael yn agored i niwed.

Trwy osod y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar 18 oed, mae darpariaethau'r Ddeddf yn cyd-fynd ag ymyriadau iechyd y cyhoeddus eraill sy'n cysylltiedig ag oedran, gan gynnwys y gyfraith yn ymwneud â thatwio ac â gwerthu alcohol, tybaco a chynhyrchion mewnanadlu nicotin (gan gynnwys sigarêts electronig).

Cwestiynau ac Atebion i helpu busnesau a thyllwyr

Beth yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff?

Tyllu'r anws, y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), y ffolen, rhych y pen ôl, y pidyn (gan gynnwys y blaengroen), y perinëwm, y mons pubis, y ceillgwd, y tafod neu'r fwlfa yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac mae'n berthnasol i bob rhywedd.

Beth mae'r gyfraith newydd yn ei wahardd?

Mae'r gyfraith newydd yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 18 oed. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i **wneud trefniadau** i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 18 oed yng Nghymru.

A gaf i dynnu gwrthrych o ran bersonol o gorff plentyn so dan 18 oed?

Nid os yw'n golygu trydyllu neu roi bwlch yng nghyfanrwydd y croen er mwyn gwneud hynny. Os nad yw plentyn yn gallu tynnu'r gwrthrych allan yn ddiogel ei hun, dylech ei gyfeirio at ei feddyg teulu.

A yw'r gyfraith newydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Ydy, mae'n berthnasol i unrhyw un sy'n rhoi twll neu'n gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 18 oed yng Nghymru.

A yw'r rheoliadau'n berthnasol os na chodir tâl am roi twll mewn rhan bersonol o'r corff?

Ydynt – nid oes unrhyw ofyniad i daliad gael ei wneud, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er mwyn i'r weithred o roi twll mewn rhan bersonol o'r corff fod o fewn cwmpas y gyfraith newydd.

Beth os bydd person yn ei ardegau, neu riant neu warcheidwad y person hwnnw, yn rhoi caniatâd i'r twll gael ei wneud?

Mae'n drosedd bellach i roi twll yng nghorff rhywun o dan 18 oed, hyd yn oed os yw wedi rhoi ei gydsyniad neu os yw wedi cael caniatâd gan riant neu warcheidwad.

A yw'r gyfraith newydd yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan?

Nac ydy – dim ond yng Nghymru y mae'r gyfraith newydd yn berthnasol. Mae rheolaethau eraill ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch y gyfraith, holwch yr awdurdod lleol yn yr ardal lle'r ydych yn bwriadu gwneud y weithred o dyllu.

A yw'r gyfraith yn berthnasol i achosion yn y gorffennol

Nac ydy, mae'r gyfraith newydd yn berthnasol i achosion o roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar ôl 1 Chwefror 2018.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ac yn rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed?

Yn y mwyafrif o achosion, mae methiant i gydymffurfio â'r Ddeddf yn drosedd. Os caiff person ei ddyfarnu'n euog, bydd yn cael cosb o ddirwy ddigyfyngiad.

Sut mae tyllwr yn gwirio oedran rhywun?

Nid yw hyn wedi ei nodi yn y gyfraith newydd. Gallai'r tyllwr ofyn am y dogfennau canlynol i wirio oedran y defnyddiwr:

- pasbort
- trwydded yrru cerdyn ffotograff Undeb Ewropeaidd
- cerdyn adnabod ffotograffig yn dangos hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) cenedlaethol, neu
- unrhyw ddogfen briodol arall.

Nid yw'n ddigon i'r tyllwr ddod i'r casgliad bod y person ifanc yn edrych fel pe bai'n hŷn na 18 oed. Mae'n rhaid cymryd yr holl gamau rhesymol i osgoi cyflawni trosedd.

Sut allaf i osgoi torri'r gyfraith?

Eich cyfrifoldeb chi fydd penderfynu sut yr ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith, ond gallai dilyn y camau canlynol eich helpu i wneud hyn:

- Hyfforddi a chynghori staff ar sut i wirio oedran cleientiaid cyn iddynt drefnu apwyntiadau, gan gynnwys y mathau o ddogfennau y gellir eu defnyddio i brofi oedran.
- (Gyda chaniatâd y cwsmer) gwneud llungopi o unrhyw ddogfen y mae'n ei darparu i brofi ei oedran.
- Cyflwyno proses wirio mewn dau gam. Gofynnwch beth yw oedran y cleient bob amser wrth drefnu apwyntiad (wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a nodwch ei oedran wrth ochr y cofnod o'r apwyntiad. Gwiriwch oedran y cwsmer hwnnw eto wedyn ar ddyddiad yr apwyntiad cyn rhoi'r twll mewn rhan bersonol o'r corff.
- Gofalwch fod gennych ganllawiau ysgrifenedig i staff ar gyfer delio â phobl a allai fod o dan 18 oed, rhwch hyfforddiant i staff ar y canllawiau hyn a chadwch gofnodion o'r hyfforddiant.
- Cadwch gofnod ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad (a chanlyniad) lle mae aelod o staff yn herio darpar ddefnyddiwr am ei oedran.
- Cadwch gofnodion ysgrifenedig ar gyfer pob cleient.

- Defnyddiwch awgrymiadau til ar gyfer trafodion tyllu'r corff, os yw'r cyfleuster ar gael.
- Arddangoswch hysbysiadau amlwg ac eglur na chaniateir i unrhyw un o dan 18 oed gael twll mewn rhan bersonol o'r corff – mae'r rhain ar gael i chi eu lawrlwytho a'u hargraffu am ddim: <https://llyw.cymru/tyllu-rhannau-personol-or-corff-poster>

Pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith newydd?

Awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r gyfraith newydd yn eu hardaloedd priodol. Gallant hefyd alw ar yr heddlu i'w helpu.

Ble allaf i gael rhagor o wybodaeth?

Gallwch gael cyngor gan eich awdurdod lleol, ac mae gwybodaeth a phoster i'w lawrlwytho (gweler isod) ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://llyw.cymru/tyllu-rhannau-personol-or-corff-canllawiau-i-fusnesau-ac-ymarferwyr>



Cyfraith newydd...
Mae bellach yn **anghyfreithlon** rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i unrhyw un **dan 18 oed yng Nghymru**. Mae hyn yn cynnwys y **tafod, y fron, a'r genitalia**.

Gofynnwch am ragor o wybodaeth gan eich tyllwr.

There is a new law...
It is now **illegal** to perform an intimate piercing on anyone **under 18** years of age **in Wales**. This includes the **tongue, breast and genitalia**.

Ask your piercer for more details.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38589 ISBN digidol 978-1-83876-929-1